



## Ysgol Pentreuchaf

### 56. POLISI DYSGWYR MWY GALLUOG A THALENTOG

#### Rhagarweiniad

*“...Mae gan bob dysgwr anghenion dysgu unigol, ac mae angen amrediad o ddulliau gweithredu er mwyn diwallu’u hanghenion. Ein nod yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, y cyfle i wireddu’u potensial, a hawl amlwg i ddylanwadu ar y gwasanaethau sy’n effeithio arnynt...”*

*Cymru – Y Wlad sy’n Dysgu 2: Cyflawni’r Addewid*

*“...Swyddogaeth yr AAL yw cefnogi ysgolion i helpu pob disgybl, gan gynnwys y rhai yr ystyrir eu bod yn fwy galluog a thalentog i gyflawni eu llawn botensial o safbwynt dysgu...”*

*Cyflawni’r Her (2008)*

Mae arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru uchod yn pwysleisio bod gan bob dysgwr hawl i addysg o’r safon uchaf posibl; addysg sy’n gydnaws â’i anghenion a’i gam datblygiad ac yn briodol heriol, a bod hyn yn berthnasol i’r unigolion rheini sy’n cael eu hadnabod fel “dysgwyr mwy galluog a thalentog”.

Prif bwrpas y polisi hwn yw amlinellu safbwynt yr Awdurdod mewn perthynas â disgyblion mwy galluog a thalentog a’r modd y bwriedir cydweithio gydag ysgol i gyfarfod â’u hanghenion.

Mae datganiad cenhadaeth yr Awdurdod yn cyfeirio at gynnig addysg o’r ansawdd uchaf posibl er mwyn cynorthwyo dysgwyr i gyrraedd eu potensial yn llawn, a hynny ar draws ystod eang o feysydd ac agweddau ar fywyd. Mae’r datganiad hwn yn berthnasol i ddisgyblion ar draws yr ystod gallu gan gynnwys unigolion sy’n cael eu hadnabod fel “dysgwyr mwy galluog a thalentog”. I’r perwyl hwn, mae’r Awdurdod yn ystyried mynediad at gwricwlwm eang, cytbwys ac amrywiol a gyfoethogir gan amrediad o weithgareddau; dulliau dysgu ac addysgu arloesol; a gwaith dosbarth wedi’i berthnasu i allu unigolyn fel haeddiant ar gyfer pob disgybl.

Mae sawl cyhoeddiad yn nodi bod diffinio dysgwyr mwy galluog a thalentog i gwmpasu’r holl briodweddau a nodweddion perthnasol yn hynod o anodd. Er mwyn ceisio eglurder a chysondeb, mae’r Awdurdod am fabwysiadu disgrifiad o ddysgwyr mwy galluog a thalentog fel unigolion sydd yn arddangos **gallu** uwch na chyfoedion yn academaidd neu **dalent** uwch na chyfoedion mewn maes neu feysydd neu weithgarwch penodol. Mae’r Awdurdod hefyd o’r farn bod tua 20% o’r boblogaeth ysgol yn syrthio i’r categori hwn a bod gweithredu’r arferion ‘haeddiant’ uchod yn debygol o ddiwallu anghenion y mwyafrif ohonynt. Yn ogystal, barna’r Awdurdod bod angen cynnig profiadau cyfoethogol i oddeutu hanner y garfan [tua 10% o boblogaeth yr ysgol] a bod unigolion prin [tua 2% o boblogaeth yr ysgol] y gellid eu disgrifio fel “dysgwyr disglair” fydd angen darpariaeth fwy arbenigol ei natur. [Gweler atodiad 1].

O ganlyniad i’r ystod ac amrywiaeth o fewn y diffiniad “mwy galluog a thalentog” [e.e. corfforol, creadigol, ymenyddol, ayb] dylai ysgol osgoi cynllunio i adnabod y dysgwyr yma **yn unig** trwy brofion [e.e. profion crynodol, profion deallusrwydd, ayb], sy’n aml yn brofion ysgrifenedig. Mae’r Awdurdod o’r farn bod rhai dysgwyr yn meddu ar arbenigedd/tueddfryd sylweddol a gwerthfawr nad oes modd ei adnabod yn hawdd trwy brofion ysgrifenedig ac yn fe anogir defnyddio amrywiaeth o strategaethau ac arfau hyblyg i ganfod ‘disgleirdeb’ ym mha bynnag faes, pwnc neu agwedd ar fywyd ei dysgwyr y’u hamlygir. (Gweler atodiad 2).

Dylid gosod gwerth haeddiannol ar ddulliau adnabod llai ffurfiol, yn ogystal â rhai mwy ffurfiol eu natur, cyn belled â’u bod yn briodol ac y gellir eu cymhwysu’n hyblyg. Yn ogystal, rhaid sicrhau ymwybyddiaeth ac

ymrwymiad pob aelod o'r staff er lleihau'r perygl o gau allan unrhyw ddysgwyr nad yw'n ymateb yn dda i ddull adnabod penodol [e.e. asesiad o waith ysgrifenedig; prawf crynodol]. [Gweler atodiad 3].

### Polisi a datganiad o fwriad

Bydd yr Awdurdod yn parhau i gydweithio gydag ysgolion gyda'r bwriad o gyflawni safonau uchel ar draws yr ystod gallu yn ogystal â chynig darpariaeth fydd yn diwallu anghenion dysgwyr mwy abl a thalentog.

Bydd yr Awdurdod yn annog ysgolion i hyrwyddo'r hinsawdd ac amgylchiadau dysgu ac addysgu gorau posib ar gyfer holl ddysgwyr yn yr ysgolion. Er mwyn gwireddu hyn anogir ysgolion i roi'r flaenoriaeth uchaf i sicrhau bod y profiadau a ddarperir a'r safonau a arddelir o'r radd flaenaf. Disgwylir i ysgolion sicrhau'r isod fel haeddiant ar gyfer pob disgybl –

- o ethos o ddulliau dysgu ac addysgu arloesol [e.e. moddau dysgu ysgogol ac amrywiol; pwyslais ar ddysgu annibynnol a phersonol; defnydd effeithiol o arfau Asesu ar gyfer Dysgu; ffocws clir ar sgiliau meddwl a dysgu lefel uwch; technegau holi strwythuredig a phriodol heriol]
- o sicrhau fod y gwaith a osodir yn addas a pherthnasol i allu a chyflawniad pob unigolyn
- o mynediad at ystod o adnoddau priodol, yn llyfrau ac offer TGC, er mwyn datblygu sgiliau ymchwil
- o cwricwlwm sy'n eang, yn gytbwys ac amrywiol
- o profiadau cyfoethogi a ddarperir trwy gynnig amrediad o weithgareddau y tu allan i gwricwlwm arferol y dysgwyr [e.e. trwy fanteisio ar arbenigeddau a ganfyddir o blith staff; trwy gysylltu gyda sectorau eraill a/neu ddarparwyr eraill; trwy hyrwyddo mynediad at hyfforddiant arbenigol, megis gan gymdeithasau chwaraeon trwy fanteisio ar ddsbarthiadau meistr a ddarperir mewn meysydd fel addysg gorfforol, cerdd a drama]

Bydd yr Awdurdod yn manteisio ar gyfleoedd a gyfyd [e.e. cyfarfodydd Penaethiaid, sesiynau HMS, ymweliadau ysgol] i godi ymwybyddiaeth ysgolion o'r hyn sydd yn ddisgwyliedig mewn perthynas ag adnabod a darparu'n briodol ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog.

Bydd yr Awdurdod yn cydweithio gydag ysgolion i greu basdata o ddeunyddiau, offer, cyfarpar, meddalwedd, safweoedd ar gyfer diwallu anghenion dysgwyr mwy galluog a thalentog ar draws y sbectrwm o dueddfryd/arbenigedd a ganfyddir. [Gweler atodiad 4]

Bydd yr Awdurdod yn cydweithio gydag ysgolion [a gyda rhieni, gwarchodwyr a'r gymuned ehangach, ayb] ar greu basdata o asiantaethau, cyrff, sefydliadau a lleoliadau lleol a chenedlaethol all gyfrannu at gyfoethogi ac ymestyn ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog, ar draws yr holl sbectrwm o dueddfryd/arbenigedd. [Gweler atodiad 4].

Bydd yr Awdurdod yn pwysleisio'r angen i roi ffocws penodol ar y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog caiff eu canfod o fewn –

- o grwpiau cymdeithasol-economaidd arbennig [e.e. dysgwyr mewn gofal; dysgwyr wedi'u gwahardd o'r ysgol, ayb]
- o grwpiau lleiafrifoedd [e.e. grwpiau ethnig; teithwyr; dysgwyr a Chymraeg/Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt]
- o grwpiau a addysgir mewn lleoliadau heblaw ysgolion / y tu allan i'r Sir, ayb
- o grwpiau ag anghenion ychwanegol a/neu anabledau

Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw i rymuso'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth am ddysgwyr mwy galluog a thalentog wrth iddynt ac wedi iddynt symud ysgol, er mwyn adlewyrchu'r sbectrwm a'r ystod o allu, talent, tueddfryd ac arbenigedd a gwmpasir yn y Polisi.

Bydd yr Awdurdod yn cydweithio gydag ysgolion ar fireinio ffyrdd o sicrhau rôl positif a phriodol-ddylanwadol i rieni/gwarchodwyr y dysgwyr mwy galluog a thalentog.

Bydd yr Awdurdod yn cynorthwyo ysgolion i fonitro, arfarnu, golygu a diwygio eu darpariaeth a'u Polisi(au) ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog yn ôl y gofyn. Anogir ysgolion i ddefnyddio'r math o fframwaith ac arfau hunan arfarnu a gynhwysir yn 'Cyflawni'r Her' a gyhoeddwyd gan Ll.C.C. a NACE yn 2008 [Gweler atodiad 5].

Bydd yr Awdurdod yn monitro'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog trwy graffu ar bolisiau ysgol a thrwy ymweliadau ysgol.

## Atodiad 1

### Diffiniad o "Dysgwyr Mwy Galluog a Thalentog"

Gellid disgrifio'r hyn a olygir wrth ddysgwyr "mwy galluog a thalentog" mewn sawl modd, ond fel gwnaeth ACCAC gydnabod yn '*Cwricwlwm o gyfle: datblygu potensial yn berfformiad*' (2003) –

*"...Ni cheir un diffiniad unigol a fyddai'n cwmpasu'r holl briodweddau a nodweddion sy'n sail i lefel uchel o berfformiad mewn unrhyw faes yn y pen draw..."*

Mewn ymgais i grynhoi beth a olygir gan "mwy galluog a thalentog", golyga'r Awdurdod –

**mwy galluog** – dysgwyr sydd yn arddangos **gallu** uwch na chyfoedion yn academiaidd; gall fod mewn un neu fwy o bynciau e.e. dysgwr sy'n gweithio 2 Lefel neu fwy y tu hwnt i'w gyfoedion.

**talentog** - dysgwyr sydd yn arddangos **talent** llawer uwch na chyfoedion mewn gweithgarwch, neu faes/meysydd penodol e.e. doniau sy'n amlygu eu hunain mewn chwaraeon, celf neu wrth berfformio.

Mae tystiolaeth o amryw ffynonellau ymchwil ar draws y byd yn awgrymu bod y canran o ddysgwyr mwy galluog a thalentog y gellid disgwyl eu canfod yn arferol o fewn poblogaeth ysgol/Awdurdod yn gorwedd rhywle rhwng 10% - 20%. Mae'r union ddiffiniadau a fabwysiadir wrth ddisgrifio a'r dulliau a ddefnyddir i adnabod y dysgwyr mwy galluog a thalentog yn un rheswm dros yr ystod o fewn y canrannau yma.

Gellid meddwl am yr 20% bras yn nhermau nifer o haenau o arbenigeddau, neu fel "sbectrwm o alluoedd/talenta"; rhai yn fwy sylweddol, arwyddocaol a phrin nag eraill. Tystia'r nifer o ymdrechion gwahanol i ddiffinio, categoreiddio a disgrifio'r haenau o arbenigedd yma i'r anhawster all godi wrth gael staff ysgol i ddod i gytundeb am hierarchaeth o fewn ei dysgwyr mwy galluog a thalentog. Fe allai ansoddeiriau megis *Gweddol – Sylweddol – Eithriadol – Hynod* fod o gymorth wrth wahaniaethu mewn rhai amgylchiadau, ond dylai ysgol osgoi oedi'n ormodol gydag ystyriaethau pedantig, a chanolbwyntio'n hytrach ar sut i wasanaethu orau a diwallu'n drylwyr yr amrediad o "*lefelau uchel o berfformiad*" (*Cwricwlwm o Gyfle*) sy'n amlygu eu hunain o ddydd i ddydd.

Mae'n ystadegol debygol bydd 10% o boblogaeth ysgol yn syrthio i gategori fyddai'n elwa o ystyriaeth fanylach a darpariaeth 'ychwanegol', o leiaf yn achlysurol. Ymhellach, oddi mewn i'r garfan 10% yma, awgrymir bod tua 2% o ddisgyblion yn syrthio i gategori "dysgwyr disglair" h.y. disgyblion **arbennig o dalentog a/neu alluog**: dysgwyr â thalent sylweddol ac amlwg [e.e. yn rhagoriaethu mewn maes neu feysydd penodol], neu ddysgwyr sydd yn gweithio'n gyson ar lefel llawer uwch na'r hyn sydd yn ddisgwyliedig [e.e. o leiaf dwy lefel yn uwch na chyfoedion]. Yn y cyd-destun hwn bydd yr ysgol, gyda chefnogaeth lawn y rhieni ac wedi ystyried aeddfedrwydd cymdeithasol, emosiynol a chorfforol y disgybl, yn cynllunio darpariaeth arbenigol a/neu

ychwanegol ar ei gyfer. Gallai 'darpariaeth arbenigol' olygu megis gweithredu rhaglen ddysgu bersonol; gweithio gyda dysgwyr hŷn; addysgu-dysgu lefel uwch trwy fideo gynadledda; cyfleon cyfoethogi all-gwricwlaidd mwy rheolaidd, ayb. Rhagwelir y byddai union gyfrwng ac amllder darpariaeth o'r fath yn ddibynnol ar nodweddion yr arbenigedd/tueddfryd a amlygir gan y dysgwyr unigol, eu hanghenion o ran hyfforddiant a'u haeddfedrwydd emosiynol. Byddai'r ddarpariaeth yn dilyn ac yn deillio o drafodaethau manwl a thrwy negydu sensitif.

Rhagwelir caiff y mwyafrif helaeth o anghenion addysgu-dysgu dysgwyr "mwy galluog a thalentog" eu diwallu ac am y rhan fwyaf o'r amser trwy wireddu'r hyn a nodir fel 'haeddiant' i ddysgwyr yn y polisi hwn. Rhagwelir ymhellach y caiff anghenion eraill y garfan yma o ddysgwyr eu diwallu trwy drefniant a darpariaeth ar lefel ysgol, megis wrth gynnig cyfleoedd a phrofiadau priodol ac ysgogol sydd y tu hwnt i'r ddarpariaeth arferol, er enghraifft trwy –

ddyfnhau a/neu ymestyn a/neu cyfoethogi a/neu cyflymu

## Adnabod dysgwyr mwy galluog a thalentog

Pwysleisir yr angen i daflu'r rhwydi'n eang os yw ysgolion i lwyddo i adnabod eu holl dysgwyr mwy galluog a thalentog: defnyddio amrywiaeth o strategaethau; mabwysiadu ystod o ddulliau ac arfau adnabod; sicrhau bod gwerth haeddiannol ar ddulliau adnabod llai ffurfiol yn ogystal â dulliau mwy ffurfiol eu natur.

Rhaid sicrhau ymwybyddiaeth ac ymrwymiad pob aelod o'r staff er lleihau'r perygl o gau allan unrhyw ddysgwr nad yw'n ymateb yn dda i ddull adnabod penodol [e.e. asesiad o waith ysgrifenedig; prawf crynodol]. Cyflawnir hyn orau trwy drafod, a thrwy gynllunio a gweithredu'n ystyrion ar y cyd, gan fonitro, arfarnu, adolygu a mireinio yn ôl yr hyn a ganfyddir o'r treialu. Hefyd, rhaid i ysgolion sicrhau bod eu harlwy o ddulliau dewisedig o adnabod yn adlewyrchu ac yn ymateb i'r amrywiaeth a'r ystod o dalent, gallu, dawn, tueddfryd a disgleirdeb, ayb, gellid disgwyl ei ganfod yn arferol.

Bydd angen ystyriaeth arbennig er sicrhau tegwch a chyfleon adnabod teilwng i unigolion neu grwpiau allai fod o dan anfantais [e.e. rhai ag anabledd corfforol, emosiynol, seiciatryddol; rhai â phroblemau cyfathrebu; rhai sydd â Chymraeg / Saesneg fel iaith ychwanegol; rhai sydd â dyslecsia, ayb].

Nodwyd eisoes bod sawl ffurf i allu a thalent, a sawl haen o arbenigedd neu ddisgleirdeb o fewn y gallu neu'r talent hefyd. Mae'n dilyn bod angen ymrwymiad i gasglu ac ystyried tystiolaeth o sawl ffynhonnell, a hynny o fewn a thu hwnt i furiau ac oriau arferol yr ysgol. Yn syml, gellid crynhoi'r ffynonellau mwyaf arwyddocaol a dylanwadol fel –

- Tystiolaeth ar ffurf 'data'
- Enwebiadau

Dengys ymchwil y gallai'r rhestr o ffynonellau tystiolaeth a strategaethau adnabod posibl sy'n deillio o'r uchod gwmpasu'r paragraffau isod, ond **pwysleisir na ddylid cyfyngu'r ystyriaethau i'r awgrymiadau yma yn unig chwaith**. Dylid nodi hefyd mai camau cyntaf y broses o gasglu tystiolaeth all amlygu gallu a/neu dalent sylweddol a geir isod, ac nid prawf digamsyniol o ddisgleirdeb. Dim ond o ganlyniad i gasglu tystiolaeth o sawl ffynhonnell, a/neu trwy amrywiaeth o ffyrdd a strategaethau, a/neu dros gyfnod rhesymol o amser dylai'r ysgol gloriannu a dod i farn derfynol ar gofrestr o ddysgwyr mwy galluog a/neu dalentog. Un fantais amlwg creu cofrestr o ddysgwyr mwy galluog a/neu dalentog yw argaeledd gwybodaeth all godi ymwybyddiaeth yr holl staff o'r unigolion yma; ymwybyddiaeth o natur eu harbenigedd, lefel eu cyrhaeddiad ar draws meysydd amrywiol, a strategaethau ac arddulliau addysgu-dysgu sy'n effeithiol mewn amgylchiadau gwahanol. Bydd bodolaeth cofrestr hefyd yn ymrwymo'r ysgol i fonitro cynnydd yr unigolion rheini a sicrhau bod y gefnogaeth a'r anogaeth angenrheidiol ar gael iddynt.

Cofier mai prif bwrpas creu cofrestr o ddysgwyr mwy galluog a thalentog yw –

- er mwyn tanio a ffocysu trafodaethau yn yr ysgol am natur, ystod, amllder, a gweinyddiad y math(au) o ddarpariaeth sydd eu hangen er mwyn ymateb i a diwallu anghenion ei dysgwyr mwy galluog a thalentog
- er mwyn cytuno ar ffyrdd o fonitro, adrodd, arfarnu, adolygu a mireinio'r ddarpariaeth at y dyfodol

Cofier hefyd bod angen llawer o sensitifrwydd wrth ymwneud â'r holl bersonau ac wrth ymdrin â phob rhan o'r broses. Er enghraifft –

- mae'n bosibl na fydd dysgwr (neu rieni/gwarchodwyr y dysgwr) yn dymuno iddo gael ei gynnwys ar restr dysgwyr mwy galluog a/neu dalentog yr ysgol, oherwydd nad yw'n ddigon aeddfed yn emosiynol neu'n gymdeithasol i gyfranogi o unrhyw ddarpariaeth ychwanegol/gwahanol y tybir sy'n wahanol i'w gyfoedion.

- o mae'n anorfod, o bryd i'w gilydd, y bydd rhaid wynebu sefyllfa lle mae unigolyn a ganfuwyd unwaith fel dysgwyr mwy galluog a/neu dalentog yn cael ei dynnu oddiar restr gyfredol yr ysgol. Bydd angen i'r ysgol ystyried effaith seicolegol ac emosiynol hynny'n ofalus ac ystyrlon, a gochel rhag peryglu gobeithion yr unigolyn o gyrraedd ei botensial llawn.

## ARFAU ADNABOD

### FFYNONELLAU DATA

#### ➤ Tystiolaeth o asesiadau crynodol ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol

Mae'r dystiolaeth yma'n arbennig o bwysig –

- cyn ac wrth i ddysgwyr cynradd drosglwyddo i ysgol Uwchradd
- wrth i ddysgwyr symud blwyddyn
- wrth i ddysgwyr symud i ysgol arall

Rhaid sicrhau bod perfformiad(au) mewn **unrhyw** bwnc neu faes (pynciau / meysydd) sy'n gyson ddwy Lefel yn uwch na chyfoedion yn cael ei amlygu, ei gofnodi a'i ddwyn i sylw.

**Manteision:** Yn cynnig cymhariaeth ddibynadwy ar sail oed ac ar draws mintai sylweddol.

**Anfanteision:** Gallai roi pwyslais sylweddol ar 'Y Craidd' brofi'n or-gul. Fe allai hefyd danbriso gwerth asesiadau crynodol eraill nad ydynt wedi'u seilio ar dystiolaeth ysgrifenedig. Gallai bodloni ar ffocysu ar lefelau moel fethu amlygu arbenigedd mewn agwedd benodol o bwnc, gan gynnwys y pynciau craidd [e.e. barddoni, tueddfryd gofodol, ayb].

#### ➤ Tystiolaeth o 'brofion' mewnol yn yr ysgol

Rhydd Cwricwlwm 2008 hawl i arweinwyr gynllunio sefyllfaoedd, cyfleon a phrofiadau amgen allai gynnig meysydd ffrwythlon ar gyfer 'profi' ac adnabod dysgwyr mwy galluog a thalentog. Dylid cofio a chynllunio'n ofalus ar gyfer manteisio'n llawn ar botensial casglu dystiolaeth o 'ddyddiau datrys problemau' neu debyg. Gwelir y mathau yma o 'brofion' o bosibl yn fwy gwerthfawr yn y broses o adnabod na rhai mathau mwy traddodiadol o brofion mewnol, gan eu bod yn ffocysu ar agweddau o allu, talent, tueddfryd, arbenigedd, ayb, nad ydynt yn gosod gorbwyslais ar ddeallusrwydd o lefel isel, megis adalw gwybodaeth a ffeithiau.

**Manteision:** Gellir safoni rhai mathau o brofion mwy traddodiadol yn hyderus ac yn ôl oed [e.e. profion oed darllen] ac mae'n bosibl gweinyddu profion i grwpiau o ddysgwyr ar yr un pryd mewn rhai achosion hefyd. Gellir ystyried y defnydd o rai profion a **gynllunnir yn ddigon gofalus** a'r deilliannau a/neu data a gesglir yn ddulliau gwyddonol a gwrthrychol o gasglu dystiolaeth. Mae'n gymharol hawdd sefydlu cylch rheolaidd o brofion traddodiadol priodol, gan gynnig cyfleon hefyd i'w harfarnu, eu hadolygu, eu mireinio a'u hymestyn yn ôl y gofyn.

**Anfanteision:** Nid yw rhai plant yn perfformio'n dda o dan amodau prawf: mae perygl i rai dysgwyr mwy galluog a/neu dalentog dangyrraedd, a hynny am amrywiaeth o resymau posibl. Gall rhai mathau traddodiadol o brofion mewnol orbwysleisio gwerth adalw gwybodaeth ar draul mesur sgiliau uwch megis y gallu i resymu, i ddadansoddi, i gymhwyso ac i greu, ayb. Ar yr un trywydd, gall gosod y pwyslais a'r ffocws yn ormodol ar fesur deilliannau ysgrifenedig danseilio – neu o leiaf codi amheuan cryf, am ddilysrwydd diduedd a thegwch y broses adnabod yn ei chyfarwydd ar draws yr ystod pynciau ac o ran aelodaeth yr holl fintai.

#### ➤ Tystiolaeth o Fyrddau Arholi, asiantaethau allanol, ayb

Arwyddion o gyrhaeddiad, fel arfer ar ffurf tystysgrif(au) Gradd(au), ynghyd ag adroddiadau gan arholwyr o bosibl, megis ym meysydd Balé, Cerdd, Karate, ayb. O bryd i'w gilydd ac yn enwedig, efallai, o ran dysgwyr sydd yn symud o ardal arall, gall ysgol ganfod dysgwr sydd wedi derbyn asesiad(au) trwy gyrff a sefydliadau llai arferol a chyfarwydd, megis MENSA, World Class Arena, ayb. Ym mhob achos, dylai ysgol gasglu, rhannu,

cloriannu a gweithredu ar y dystiolaeth – yn dilyn proses o ymgynghori ar ‘arwyddocâd’ y dystiolaeth os oes angen, cyn penderfynu ar yr arlwy o ddarpariaeth gellid ei gynnig [e.e. wrth ystyried cyrhaeddiad yn gyfochrog ag oed ].

Bydd angen ystyried ffyrdd sensitif a dibynadwy i ddod o hyd i'r math yma o dystiolaeth a gellir ystyried manteisio ar gyfleon ABCh yn ogystal â chyfleon pwnc benodol i gyflawni hyn. [Gweler hefyd ‘Enwebiad Rhieni’, ‘Enwebiad Cyfoedion’ a ‘Hunan Enwebiad’ isod]

## ENWEBIADAU

Dengys ymchwil bod annog a chasglu enwebiadau am ddysgwyr yn allweddol bwysig os yw ysgol i lwyddo i adnabod ei dysgwyr mwy galluog a thalentog. Mae'n bosibl na fydd sail ddilys a chywir i bob enwebiad, a rhaid cydnabod o'r cychwyn nad yw disgleirdeb bob amser yn nodwedd hirdymor a pharhaus o yrfa dysgwr a adnabuwyd unwaith fel dysgwr mwy galluog a/neu dalentog. Ond gwell ambell enwebiad gwallus na rhestr anghyflawn o ddysgwyr mwy galluog a thalentog. Rhagwelir yr angen i gadw cofnod gofalus iawn o bob enwebiad, gan fonitro'r cynnwys, casglu a chrynhoi barn y staff, trafod a gweithredu ar y canfyddiadau a diweddarau'r bas data'n rheolaidd.

Gall yr enwebiad ddod o sawl ffynhonnell:

### ➤ ***Enwebiad Athrawon***

Mae'n hanfodol bod pob enwebiad gan addysgwyr yn cael ei gofnodi a'i ddwyn i sylw –

- addysgwyr eraill ar y pryd hwnnw
- addysgwyr eraill gydol dyfodol gyrfya ysgol/coleg y dysgwr.

**Manteision:** Dylai athrawon fod mewn sefyllfa dda i nodi potensial yn ogystal â gallu a/neu dalent sylweddol. Yn aml, gwelant blant am gyfnodau estynedig a/neu mewn sefyllfaoedd pryd mai ffocws manwl a chyson ar un agwedd bynciol, ac felly gallant ffurfio barn llawer mwy miniog / mwy cyflawn na'r rhai a lunnir o ganlyniad i brawf yn unig. Os ydynt wedi treulio amser gyda chydweithwyr yn cytuno ar restr wirio pwnc penodol o ymddygiad disgyblion a nodweddion mwy galluog a thalentog, byddant yn debygol o ffurfio barn gytbwys a chywir. Gyda phrofiad, gallant ddod i adnabod dysgwyr mwy galluog a thalentog gyda hyder cynyddol.

**Anfanteision:** Efallai bod gan addysgwyr ragdybiaethau anffodus ynglŷn â disgyblion penodol, neu efallai safbwynt / rhagfarn ynglŷn â natur y maes arbenigedd sydd o dan sylw, neu amheuaeth am lefel y gallu a/neu dalent. Fe allai hyn ddeillio o a chael ei ddylanwadu gan ffactorau mor amrywiol â –

- nodweddion personol, cenedl, ayb
- problemau corfforol, meddyliol, ymddygiad heriol yn y dosbarth, ayb
- diffyg ymwybyddiaeth / profiad o faes penodol y disgleirdeb ar ran yr addysgwyr
- cefndir y cartref, profiad o addysgu perthynas arall o'r teulu
- taclusrwydd gwaith ysgrifenedig, cysondeb ac ansawdd gwaith dosbarth a chartref

Oni bai bod cofnod o enwebiad blaenorol gan addysgwyr arall a/neu o sector arall yn cael ei ddwyn i sylw'r addysgwyr, gellir rhagweld cyfleon gwerthfawr ac amser prin yn cael eu colli.

Oni bai i addysgwyr rannu a thrafod eu henwebiadau a/neu eu canfyddiadau/amheuon gyda chydweithwyr, a dod i ddealltwriaeth ynglŷn â'r gallu a/neu dalent, yna gallai staff o'r un ysgol ddefnyddio meini prawf anghyson a gwrthgyferbyniol wrth geisio adnabod y dysgwyr mwy galluog a/neu dalentog.

### ➤ ***Enwebiad Rhieni***

Mae rhieni mewn sefyllfa ardderchog i wybod am ddiddordeb, neu dueddfryd a chyrhaeddiad eu plentyn, a gallant hefyd fynegi barn ar lefel y gallu neu'r dalent. Mae'n dilyn felly bod angen i ysgol godi ymwybyddiaeth

rhieni o'r cyfle a'r angen iddynt i ddwyn materion allai fod yn rhai arwyddocaol am dueddfryd, gallu, talent, ayb eu plentyn i'w sylw.

**Manteision:** Os cânt eu holi'n sensitif, gall rhieni ychwanegu dimensiwn arall at ganfyddiadau'r ysgol oherwydd eu hymwybyddiaeth o ddiddordeb(au), sgil(iau), cyrhaeddiad neu dalent nad oes, efallai, meithrinfa addas ar ei gyfer / ar eu cyfer ar y pryd hwnnw yn yr ysgol. Ar yr un trywydd, gall rhieni gynnig mewnbwn gwerthfawr ar gyflawniad eu plentyn mewn meysydd amgen a llai hysbys [e.e. tystysgrifau cyrhaeddiad gan gorff allanol; llwyddiant trwy glwb gwyddbwyll lleol; cynrychiolaeth Sirol / Cenedlaethol trwy gymdeithas bysgota; potensial a ganfuwyd gan y clwb golff lleol neu wrth fynychu ysgol haf hwylyfyrddio; arbenigedd a amlygwyd trwy brofiadau Clwb Ffermwyr Ifanc, ayb].

**Anfanteision:** Wrth gynnwys rhieni yn y broses adnabod (ac mae'n ddyletswydd ar ysgol wneud hynny), mae angen ymdriniaeth ofalus, oherwydd efallai na fydd eu plentyn yn boddhau'r meini prawf parthed gallu sylweddol, talent a disgleirdeb a sefydlir gan yr ysgol.

### ➤ **Enwebiad Cyfoedion**

Mae gan ddysgwyr sy'n aml yn gweithio ar y cyd gyda dysgwr arall a/neu yn ffrind iddo/iddi ymwybyddiaeth reit dda o allu neu dalent ei gyfoed, hyd yn oed os yw'r person hwnnw'n naturiol ddiymhongar, neu'n 'swil', yn 'breifat' neu'n 'dawel' ei natur. Mae'n dilyn, gyda sensitifrwydd at deimladau ac o ran y cyfeillgarwch sy'n bodoli, y gellid casglu gwybodaeth ddefnyddiol am ddysgwyr drwy holi cyfoedion a ffrindiau; gwybodaeth all gyfrannu'n werthfawr at broffil llawnach a lunnir gan yr ysgol.

**Manteision:** Dengys gwaith ymchwil bod cydberthyniad gweddol agos rhwng enwebiadau cyfoedion dysgwyr mwy galluog a thalentog a chanlyniadau profion wedi eu safoni.

**Anfanteision:** Mae angen holi dysgwyr yn ofalus yn ogystal â sensitif er mwyn atal rhagfarn, ac er osgoi derbyn enwebiadau am resymau amhriodol neu anghywir.

### ➤ **Hunan Enwebiad**

Yn amlwg yn dibynnu i raddau helaeth ar bersonoliaeth a nodweddion cymeriad yr unigolyn, gall hunan enwebiad gyfrannu gwybodaeth ddefnyddiol i ysgol.

**Manteision:** Yn ogystal ag ychwanegu at broffil personol all gynnwys diddordeb(au), tueddfryd, gallu, talent, cyrhaeddiad a llwyddiannau'r dysgwr, gall hunan enwebiad ddatgelu gwybodaeth arwyddocaol ynglŷn â chymhelliad, hunanhyder, brwdfrydedd a dyheadau'r dysgwyr.

**Anfanteision:** Nid oes gan bob dysgwr y gallu angenrheidiol i lunio barn onest a chywir o safbwynt hunan-ganfyddiad. Mae'n bosib bod rhai yn tanbriso eu gallu, tra bod eraill yn gorbriso eu gallu.

## **CYFFREDINOL**

Dylai ysgolion gadw'r pwyntiau isod mewn cof wrth weithredu ar yr angen i adnabod ei haenau o ddysgwyr mwy galluog a thalentog:

- pwysigrwydd adnabod potensial mor gynnar â phosibl
- cofio nad yw datblygiad pob unigolyn yn llinol nac yn gyson o'i gymharu â chyfoedion; rhaid sefydlu strategaethau a gwneud ymdrech i adnabod y dysgwyr galluog, talentog a disglair sy'n "blodeuo'n hwyrach", gan gynnig darpariaeth deilwng iddynt hwy hefyd
- sylweddoli bod rhai dysgwyr mwy galluog a/neu dalentog yn fwriadol yn celu a/neu'n dewis peidio manteisio ar eu gallu/talent; bydd angen canfod strategaethau arbennig i'w hadnabod hwy, ac ystyriaeth sensitif o sut gellid darparu'n briodol ar eu cyfer



- cydnabod, tra bod cyfrifoldeb ar bob aelod o'r staff i gyfrannu at y broses o adnabod dysgwyr mwy galluog a/neu dalentog, bod angen strwythur clir o gyfrifoldeb yn yr ysgol, er sicrhau cydgysylltu, cydgyrdio a monitro'r prosesau'n effeithiol ac effeithlon

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Dyddiad: \_\_\_\_\_**